# Cwestiynau cyffredin

CYNLLUN CASGLU
COLLECTORPLAN

1. Beth yw'r Cynllun Casglu?

Galluoga Cynllun Casglu unigolion preifat i fenthyca arian (di-log) i'w helpu i brynu celfweithiau oddi wrth orielau yng Nghymru sy'n aelodau o'r Cynllun Casglu.

2. Pwy sy'n rhedeg Cynllun Casglu?

Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n rhedeg Cynllun Casglu - http://www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk/

3. Beth yw amcanion y cynllun?

Dyma amcanion y cynllun:

- galluogi rhagor o bobl i brynu celfweithiau
- cefnogi orielau yng Nghymru drwy annog rhagor o werthiant o'u gwaith
- cefnogi artistiaid cyfoes drwy annog rhagor o werthiant o'u gwaith

4. A oes raid imi fyw yng Nghymru i fod yn gymwys am gael benthyciad Cynllun Casglu?

Mae Cynllun Casglu yn agored i bawb sy'n byw ym Mhrydain dros eu deunaw oed, yn ddarostyngedig i statws.

5. Pam nad yw'r Cynllun Casglu ar gael yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr?

Mae Creative United yn rhedeg cynllun tebyg o'r enw Own Art. Mae manylion pellach ar gael yma - http://www.ownart.org.uk/what-is-own-art/

6. Os nad y cwsmer sy'n talu llog ar y benthyciad, pwy sydd?

Mae cymhorthdal i gost y benthyciad oddi wrth ariannwr y cynllun, Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n gwneud y benthyciadau'n fforddiadwy i'n horielau sy'n aelodau o ran gweithredu'r cynllun yn ogystal â gwarantu'r gyfradd log o 0% i'r prynwyr.

7. A gaf ddefnyddio Cynllun Casglu i brynu gwaith yn uniongyrchol oddi wrth yr artist?

Na chewch – mae Cynllun Casglu dim ond ar gael drwy orielau sydd wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

8. Pa fath o waith y caf ei brynu gyda benthyciad Cynllun Casglu?

Cewch brynu darnau gwreiddiol a chyfoes o gelfweithiau a chrefft o unrhyw gyfrwng gan gynnwys peintio, cerflunio, ffotograffiaeth, printiau mewn cyfres gyfyngedig (mwyafswm y rhediad yw 150 print), tecstilau, gemwaith, celfi, gwydr, cerameg, amlgyfrwng – mewn gwirionedd unrhyw waith gwreiddiol gan artist byw.

9. Beth yw'r swm lleiaf y caf ei fenthyg gyda Chynllun Casglu?

Y benthyciad lleiaf yw £50 (ar ôl talu'r blaendal). Gall hyn fod i brynu un peth neu grŵp o bethau lle mae'r gwerth cyfunol yn £55 neu ragor.

### 10. A gaf ddefnyddio Cynllun Casglu i brynu gwaith sy'n costio rhagor na £5,000?

Cewch - gall y benthyciad fynd tuag at dalu am celfwaith sy'n costio rhagor na £5,000 cyn belled ag y gellwch dalu'r gweddill mewn arian parod neu â cherdyn credyd/debyd. Ni chewch ymgeisio am sawl benthyciad i dalu am gost un darn o waith.

### 11. A gaf ddefnyddio'r cynllun fwy nag unwaith?

Cewch – nid oes mwyafswm ar y nifer o weithiau y gellwch ddefnyddio'r cynllun. Ond ni chewch fenthyg fwy na'ch mwyafswm personol sef £5,000.

### 12. Beth sy'n digwydd os bydd fy nghais am fenthyciad yn aflwyddiannus?

Gall Cyngor Celfyddydau Cymru wrthod cais am gredyd am nifer o resymau. Os digwydd hyn, cysylltwn â chi gydag esboniad am y penderfyniad.

### 13. A oes arnaf angen talu blaendal?

Oes – bydd yn rhaid i'r prynwr dalu lleiafswm o flaendal o 10% yn uniongyrchol i'r oriel gyda phob benthyciad.

### 14. Pryd y bydd yn rhaid imi wneud fy nhaliad cyntaf?

Fel arfer tynnir eich taliad cyntaf o'ch cyfrif tua phedair wythnos ar ôl y dyddiad y llofnodasoch y cytundeb. Cewch lythyr oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n cadarnhau'r dyddiad.

### 15. A gaf newid dyddiad y debyd uniongyrchol misol?

Cewch – ond bydd yn rhaid ichi ddewis rhwng y 7fed neu'r 21ain o'r mis. Gellwch newid eich dewis gwreiddiol drwy gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru ar 029 2044 1390 neu drwy e-bost: cyllid@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

### 16. A oes unrhyw ffioedd os penderfynaf dalu'r benthyciad yn ôl yn gynnar?

Nac oes – nid ydym yn codi am dalu benthyciadau'n ôl yn gynnar. Gellwch drefnu talu eich benthyciad yn ôl yn gynnar drwy gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru ar 029 2044 1390 neu drwy e-bost: cyllid@cyngorcelfyddydaucymru.org.uk